

❖ Y BABAN IESU

Rhan o fawredd geiriau Efengyl Luc yn adrodd stori'r geni yw symlwydd diaddurn y dweud. Mae'r mynegiant mor ddiwastraff; mor foel ac eto mor effeithiol.

'Pan oeddent yno, cyflawnwyd yr amser iddi esgor, ac esgorodd ar ei mab cyntaf-anedig; a rhwymodd ef mewn dillad baban a'i osod mewn preseb, am nad oedd lle iddynt yn y gwesty.'

Bu'r geiriau rhyfeddol yma yn dir ffrwythlon i ddychymyg beirdd ac emynwyr yr oesoedd. A'r Nadolig hwn bydd cynulleidfaoedd Cristnogol fel erioed yn gwneud defnydd o'u carolau i fynegi eu mawl i Dduw am y baban a gaed mewn preseb. Byddwn ninnau fel Cristnogion Cymraeg yn ystod y dyddiau nesaf yn troi at yr hen ffefrynnau, er nad yw pob un ohonynt o ran dyddiad eu cyfansoddi mor hen â hynny, gyda 'Mae'r nos yn fwyn ym Methlehem' yn un enghraifft, ac yn diolch amdanynt ac am y cyfoeth sydd ynddynt.

Yn naturiol ddigon, gan mai â gwyrth yr ymgnawdoliad y mae a wnelo Gŵyl y Geni, testun ambell garol yw rhyfeddu ddyfod Duw i'n byd yn faban bach. Nid yw eiddilwch a diymadferthedd y baban yn dianc rhag cael sylw:

I orwedd mewn preseb...

Tybed nad un rheswm dros ein hoffter o'r carolau hyn yw am eu bod wrth sôn am Iesu'r baban yn apelio nid yn unig at yr elfen sentimental sydd ynom ond hefyd at y gynneddf i lynu wrth y cyfarwydd. Mae'r Ymgnawdoliad yn athrawiaeth, ac mae'n rhaid wrth ymdrech meddwl i'w deall.

(Sôn yr ydym am yr athrawiaeth am yr Ymgnawdoliad; byddai ceisio deall yr Ymgnawdoliad ynddo'i hun yn amhosibl gan ei fod yn ddigwyddiad, fel y Creu, er enghraifft, sydd tu hwnt i ddeall meidrol, pechadurus.) Ond mae baban bach ar y llaw arall yn rhywbeth sy'n bod o fewn cylch ein profiad bob dydd. Hwyrach bod babi bach drws nesa a'n bod yn ei glywed yn crio neu'n chwerthin am yn ail am oriau bwy'i gilydd. Neu efallai fod babi ar ein haelwyd a ninnau yn ei godi a'i fagu a rhyw syndod yn dod trosom o gofio i ninnau rywdro fod fel hyn: cael ein bwydo a'n magu a'n trafod gan riaint a chan hwn a'r llall, weithiau'n dyner, weithiau, ac yn ddealladwy, wrth gwrs, ar ôl cyfnodau o sgrechian diangen, yn llai tyner.

Dichon fod plentyndod Iesu Grist yn rhywbeth y teimlwn y medrwn ymfachu wrtho er mwyn cadw ei berson o fewn ein byd bach ni ein hunain – y byd y tybiwn ein bod â rheolaeth a meistrolaeth arno.

Dyma un o'r rhesymau, yn ddi-os, sy'n esbonio pam y ceir cnwd o lyfrau bob blwyddyn sydd yn enw ysgolheictod gwrthrychol a diduedd yn ceisio cyflwyno Iesu fel dyn yn ei oes a'i amser ei hun heb y 'chwedlau' ynghylch ei eni a'i wyrthiau a'i atgyfodiad. Rhyfedd, ar un olwg, yw'r galw am y math yma o lyfrau. Rhyfeddach fyth yw fod rhai Cristnogion amlwg yn eu canmol a'u cymeradwyo fel llyfrau a all fod yn 'apologia', yn gyfrwng i gyflwyno Iesu Grist i oes a chenedlaeth sydd, i raddau helaeth, wedi cefnu ar yr Efengyl Gristnogol. Eu dadl yw fod gweithiau o'r fath trwy gyflwyno Iesu hiwmanistaidd, rhywun sydd i bob pwrpas yr un fath â ni, yn ei wneud yn ddealladwy ac yn fwy credadwy yng ngolwg trwch y boblogaeth. Pa ddrwg sydd yn hynny, meddir? Onid yw Iesu y medrwn ei ddeall o fewn fframwaith ein meddwl modern yn llawer mwy perthnasol na Iesu'r credoau traddodiadol: 'Dwy natur mewn un person/Yn anwahanol mwy' a phethau annealladwy o'r fath?

Ond, atolwg, pa Grist yw hwnnw sydd yn union yr un fath â ni? Yn sicr, nid Crist y Testament Newydd na Christ carolau angerddol yr Eglwys Gristnogol y bu'r ffyddloniaid yn eu canu i lawr y canrifoedd yn eu hiaith gysefin ac mewn cyfieithiadau. Wrth gyffesu bod Iesu, ie, Iesu'r baban, yn wir ddyn cyffesu yr ydym nid fod Iesu yn union fel ag yr ydym ni ond ei fod yn ei ddyndod yn ddibechod. Mae natur ddynol unigryw fel ei eiddo ef yn rhywbeth sydd tu hwnt i'n profiad ni fel pechaduriaid. Drwy Ddatguddiad, trwy ffydd y credwn yn ei ddyndod. Anghofio hyn a wna llawer sy'n honni eu bod yn eu diwinydda yn gwneud cymwynas wrth aros yn gyfan gwbl gyda dynoliaeth 'normal' Iesu.

Y gwir yw pe bai dynoliaeth Iesu yn 'normal', hynny yw, yn union yr un fath â'r eiddo ni ni fyddai ystyr o gwbl i'r Nadolig. Ni fuasai dechrau newydd yn hanes dynolryw.

Gwyndaf Jones